



# **Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru**

## **Canllaw Ymarfer**

# **Ymholiadau i'r Gofrestr Amddiffyn Plant**

*Fersiwn 2 Hydref 2020*

## 1.0. **Cyflwyniad**

- 1.1. Mae'r [gofrestr amddiffyn plant](#) yn cael ei gweinyddu ar ran Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru gan y chwe gwasanaeth cymdeithasol sy'n gwasanaethu'r ardal ble mae'r plentyn yn byw yn bresennol.
- 1.2. Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn gyfrifol am sicrhau fod systemau a phrosesau mewn lle ar gyfer rheoli'r gofrestr yn effeithiol a bod gwybodaeth ar gael i asiantau partner.
- 1.3. Cyfrifoldeb ceidwad y gofrestr yw sicrhau:
  - Bod yr holl fanylion yn cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant;
  - Bod y gofrestr yn cael ei diweddarau a dylai'r cynnwys fod yn gyfrinachol heblaw i ymholwyr dilys;
  - Bod enw plentyn ond yn cael ei ychwanegu i'r gofrestr o ganlyniad i benderfyniad mewn cynhadledd amddiffyn plant, ac eithrio os yw'n blentyn ar gofrestr amddiffyn plant awdurdod lleol arall sy'n symud dros dro i'r ardal. Yn yr achos hwn, bydd y plentyn yn cael ei gofrestru'n syth, ac adolygir hyn yn y gynhadledd amddiffyn plant cyntaf yn yr ardal newydd.

## 2.0. **Ymholiadau i'r gofrestr amddiffyn plant**

- 2.1. Ni ddylai [ymholiadau](#) i'r gofrestr gymryd lle trafodaeth briodol o bryder gyda'r gwasanaethau cymdeithasol ond fel rhan o gasglu gwybodaeth gefndir.
- 2.2. Bydd ymholiadau gwahanol i'r gofrestr, yn dibynnu ar pam y gofynnir am y wybodaeth. Er enghraifft, efallai y bydd angen i CAF/CASS gynnal ymholiad i'r gofrestr fel rhan o'u proses ffurfiol mewn camau preifat. Fel arall, efallai bod gweithiwr proffesiynol yn gwneud ymholiad gan fod y plentyn wedi bod mewn adran frys ysbyty ac mae [pryderon](#) diogelu. Dylid nodi a chofnodi'r math o ymholiad yn glir.
- 2.3. Mae mynediad i'r gofrestr amddiffyn plant yn gyfyngedig i ymarferwyr sydd â phryder diogelu. Bydd eu hunaniaeth yn cael ei gadarnhau.
- 2.4. Mae'n hanfodol fod gan yr heddlu a gweithwyr iechyd proffesiynol fynediad i'r gofrestr o fewn a thu allan i oriau swyddfa.

## 3.0. **Gwneud ymholiad**

- 3.1. Rhaid i'r ymholwr fod yn ymarferydd o asiantaeth a gynrychiolir ar Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru a bydd eu manylion yn cael eu gwirio i sicrhau eu bod yn ddilys.
  - Os yw enw plentyn ar y gofrestr, bydd yr ymholwr yn cael enw'r cydlynnydd cynllun amddiffyn gofal a chefnogaeth.
  - Cyfrifoldeb yr ymholwr yw hysbysu'r cydlynnydd cynllun amddiffyn gofal a chefnogaeth ynglŷn â'r ymholiad.

- Cedwir cofnod o enwau'r plant y gwneir ymholiadau amdanynt.
- Os gwneir ymholiad am blentyn yn yr un cyfeiriad a phlentyn ar y gofrestr, dylai'r ceidwad sicrhau y rhoddir y wybodaeth hon i'r cydlynnydd cynllun amddiffyn gofal a chefnogaeth y plentyn a gofrestrwyd.
- Os gwneir ymholiad ond nad yw enw'r plentyn ar y gofrestr dylid cofnodi hyn gyda'r cyngor a roddwyd i'r ymholwr.

#### 4.0. **Manylion Cyswllt**

4.1. I wneud ymholiad am y gofrestr amddiffyn plant i Awdurdod Lleol, cysylltwch â'r Awdurdod Lleol ar y rhifau isod:

<b>Awdurdod lleol</b>	<b>Yn ystod y dydd</b>	<b>Y tu hwnt i oriau swyddfa</b>
Anglesey	01248 752722	01248 353551
Gwynedd	01758 704455	0124 8353551
Conwy	0300 456111	01492 515777
Denbighshire	01824 712200	0345 0533 166
Flintshire	01352 701000	0345 0533 166
Wrexham	01978 292039	0345 0533 166